

SL(5)084 – Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Dosbarthau Esempt ar Leoedd Tân) (Cymru) 2017

Cefndir a Phwrpas

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli gyda diwygiadau Orchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2016 ("Gorchymyn 2016).

Mae adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 ("Deddf 1993") yn gosod gwaharddiad cyffredinol ar allyrru mwg mewn ardaloedd rheoli mwg.

Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn a wneir o dan adran 21(5) o Ddeddf 1993, esemptio, o ran Cymru, ddosbarthau penodedig ar leoedd tân rhag darpariaethau adran 20, os ydynt wedi eu bodloni y gellir defnyddio'r cyfryw leoedd tân i losgi tanwydd nad yw'n danwydd awdurdodedig a hynny heb gynhyrchu unrhyw fwg neu faint sylweddol o fwg.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn esemptio dosbarthau ar leoedd tân a restrir yn y golofn gyntaf o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn rhag darpariaethau adran 20 o Ddeddf 1993, yn ddarostyngedig i'r amodau yn yr ail golofn a'r drydedd golofn o'r Atodlen honno mewn perthynas â'r dosbarth hwnnw ar leoedd tân.

Gweithdrefn

Negyddol

Craffu Technegol

Nodwyd y pwynt canlynol i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn (Rheol Sefydlog 21.2 (vi): ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol).

Nod erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yw dirymu Gorchymyn 2016. Fodd bynnag, yn yr erthygl, cyfeirir at y Gorchymyn a ddirymir fel Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2016. Mae'r teitl hwn yn anghywir.



Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli (gyda newidiadau) Orchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Dosbarthau Esempt ar Leoedd Tân) (Cymru) 2016 (OS 2016/811 (Cy. 201)).

Fel y mae'r adroddiad drafft yn ei nodi, ceir gwall wrth ddrafftio erthygl 3 o'r Rheoliadau. Mae'r testun Cymraeg a'r testun Saesneg ill dau yn cynnwys cyfeiriadau anghywir at deitl yr OS a ddirymir – OS 2016/811 (Cy. 201):

- a. Mae testun Saesneg erthygl 3 yn cyfeirio at "The Smoke Control Areas (Exempted Fireplaces) (Wales) Order 2016". Dylai ddarllen "The Smoke Control Areas (Exempted Classes of Fireplace) (Wales) Order 2016".
- b. Mae'r un gwall yn codi yn y testun Cymraeg. Mae erthygl 3 yn cyfeirio at "Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2016". Dylai ddarllen "Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Dosbarthau Esempt ar Leoedd Tân) (Cymru) 2016".

Mae'r un cyfeiriad anghywir at y teitl yn codi hefyd yn nhestunau Cymraeg a Saesneg y Nodyn Esboniadol i'r Gorchymyn hwn.

Gwall drafftio clir yw hwn sydd o natur deipograffyddol. Nid yw teitl yr OS a ddefnyddiwyd yn erthygl 3 yn cyd-fynd ag unrhyw deitlau ar gyfer OSC 2016. Gorchymyn blynyddol yw hwn lle mae pob Gorchymyn yn dirymu ac yn disodli (gyda diwygiadau) ei ragflaenydd. Mae'r holl Orchymynion rhagflaenol gyda theitlau tebyg wedi eu dirymu ac felly nid ydynt yn bodoli bellach. Mae diben erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn glir: dirymu yn benodol orchymyn rhagflaenol 2016. Nid oes amheuaeth mai OS 2016/811 (Cy. 201) yw'r Gorchymyn rhagflaenol. Mae'r Nodyn Esboniadol a'r troednodyn i Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn (yn y testun Cymraeg a'r testun Saesneg) ill dau yn cyfeirio at OS 2016/811 (Cy. 201) fel yr OS sy'n cael ei ddirymu gan erthygl 3.

Mae sylwedd y ddarpariaeth yn glir, o ran pa offeryn statudol sy'n cael ei ddirymu gan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn. Pa un bynnag am hynny, serch y dirymiad penodol a wneir gan erthygl 3, effaith ymhlyg y ffaith bod erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn (a'r



Atodlen iddo) yn dod i rym yw bod OS 2016/811 (Cy. 201) yn cael ei ddirymu. Nid yw'r gwall drafftio hwn yn peryglu effeithiolrwydd cyfreithiol y Gorchymyn hwn o ran disodli a dirymu OS 2016/811 (Cy. 201).

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr opsiynau ar gyfer ymdrin â'r gwall hwn.

Ystyriaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 3 Ebrill 2017. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymateb y Llywodraeth, ac yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd technegol uchod.

